Cyfres Llanbedr | Rhagfyr, 1933 | Cyf. 33. Rhif 12

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

AU REVOIR!
DIOGI.
"GWELL YW ENW DA"
(NEU '68).
ODDIAR Y TWR.
JOHN DAVIES, O GEFNCOED.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'
LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. RHAGFYR, 1933. CYF. XXXIII. RHIF 12.

Au Revoir!

NID yw ond megis doe pan deimlwn fy hun yn *rhywun* o ddarllain fy erthygl gyntaf i'r YMOFYNNYDD yn rhifyn Hydref 1916. Ei thestun oedd Mŵd o Hiraeth, a dyna fy mŵd heddiw wrth ddweyd wrth fy narllenwyr AU REVOIR! O Hydref 1916 hyd imi gymryd at ei olygu yn nechreu 1926 ysgrifenais rhyw ddeugain pwt o lith—llawer gormod digon tebig. Wrth feddwl am hyn dechreuais gyfrif fy ysgrifau yn ystod wyth mlynedd fy ngolygyddiaeth, ond blinais ar y gorchwyl, a deellais pam y dywedir fod gormod o stamp y golygydd arno. Nid yw hynyna'n deg. Nid o'm bodd yr ysgrifenwn i YR YMOFYNNYDD ond o raid, a hyd y cofiaf ni wrthodais erthygl. Rhois ddwy o'r naill ochr ac fe'u hanghofiais. Nid yw'n edifar gennyf imi geisio ysgrifennu hanes y Cynulleidfaoedd Undodaidd yng Nghymru. Medrai arall fod wedi gwneud y gwaith, yn well na mi hwryach, ond nis gwnawd. Gwn i fy hun yn well odid na neb ddiffyg yr erthyglau hyn, ond ni fwriedid iddynt fod ond tamaid i aros pryd. Canfu llawer o'm darllenwyr fai ar y Golygydd ond odid,—

"A bawddyn lle na byddai."

Gwyrdrowyd ergydion diniwed smala Gwŷr Pentyrch gan eneidiau di-hiwmor, a synnwn i at fy nghlyfrwch yn golymu cynifer o saethau a'u gollwng ar antur, ond fe wel ambell un lawer mwy mewn erthygl na'r awdur ei hun. Ond fe'm calonogid o glywed rhywun yn dweyd mai gormod o wir a oedd ynddynt. Gwn fod rhai wedi gweld yn fy erthyglau ar '68 na fwriedais i roi ynddynt. Nid oedd gennyf ddim yn fy meddwl ond adrodd hanes cynhyrfus 'slawer dydd. A gwneud cyffes onest, ni fwriadwyd erioed iddynt ymddangos yn YR YMOFYNNYDD. Nid têg darllain i erthygl

feddyliau tywyll a maleisus, ac er symud rhyw dybiau disail rhof dair barn arnynt. Dywedai fy hen athro—y Parch. David Evans nad ysgrifennais ddim yn well erioed. Anfonodd Sarnicol gerdyn yn datgan y mwynhad a gafodd o'u darllain. Dywed y *Darian* "Y peth mwyaf enaid gynhyrfol yn y rhifyn yw 'Gwell yw Enw Da neu '68'. Disgrifia ef orthrwm cythreulig Landlordiaeth yn y cyfnod hwnnw. Dylid cyhoeddi'r ysgrifau hyn yn llyfryn."

Y mae'r papurau Cymraeg wedi bod yn garedig iawn i mi, a diolchaf iddynt.

Nid ysgrifenais ddim gyda'r bwriad o glwyfo neb. Nid oes edifar gennyf am a ysgrifenais. Ceisiais gadw graen ar yr iaith ac ar Yr Ymofynnydd, ond gwaeda fy nghalon am i mi fethu gwneud gwell gwaith arno, a gobeithio y llwydda y Golygydd newydd lle methais i. Y mae golwg gennyf arno. Y mae wedi bod fel plentyn gennyf am wyth mlynedd, a gofid i mi oedd clywed pwy ddydd awgrym y buasai'n well ei droi yn chwarterolyn. Ni chredaf hynyna am foment, a gwn y bydd rhaid ymladd llawer ysgarmes hyd at waed cyn ein hamddifadu o'r unig ddolen a'n cydia wrth ein gilydd. Y mae'n bwysig inni gadw'r Ymofynnydd nid yn unig yn fyw ond yn flodeuog. Gollyngaf ef o'm llaw yn y gobaith a chyda'r hyder hwn.

Onid wyf yn methu dywedodd Gwili mai yr unig welliant a wnaeth ef yn y *Seren* oedd symud hysbysiad am belenni o'r tudalen gyntaf i'r dudalen olaf—pills, chwedl yntau, ar ôl bwyd ac nid o flaen bwyd. Ni lwyddais i wneud cymaint a hyn a'r Ymofynnydd, ond fe rois ddwy n yn ei enw gan droi Ymofynydd yn Ymofynnydd.

Fe garaswn ddyblu rhywbeth heblaw yr n, dyblu ei gylchrediad, dyblu ei werth ond ni wneuthum ond dyblu'r n. Ni wn pam. Hwyrach mai mympwy oedd. Hwyrach mai eisiau llythyren gyntaf enw fy nwy ferch iddo oedd arnaf. O'r hyn leiaf N. a N. sydd wedi ysgrifennu mwyaf iddo yn ystod yr wyth mlynedd. Y mae y Parch. David Evans wedi bod yn garedig dros ben, a bendith ar "Seymour" am fy nghofio dro ar ôl tro. Ni achwynaf ac ni rwgnachaf. "To know all is to forgive all" meddai rhywun. Anfonodd fy nghydweinidogion ac eraill bob hanesion a marwgofion i mi, a bu Gwasg Gomer yn ofalus a boneddigaidd fel arfer. Pe bawn i yn medru apelio yn fwynach digon tebig y gwrandewid yn gynt, ond ni newidia'r llewpart ei frychni na'r Golygydd ei natur.

Dymunaf o galon Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd, ac yn awr Au Revoir.

Diogi.

(J. Seymor Rees).

ERS rhai misoedd bellach aflonyddir arnaf yn dawel gan rywfath o syniad annelwig fy mod yn ddyn diog. Ar hyn o bryd dyfaliad personol ydyw.

Weithiau, pan ddaw ar fy ngwarthaf mynnaf droi ataf fy hun i weinyddu cerydd. Mynegaf yn llym mai ffrwyth i'm dychymyg yw'r cyfan.

Yn wir, y mae toreth o gyfoeth i'w gael trwy rym dychymyg heini.

Adwaen i ŵr a grêd mai hyddysg yw ymhob cangen o wybodaeth. Llwydda tuhwnt i reswm i'w gadw ei hun yn y cyflwr hwn. Pe profid ef wrth safon gyffredin ceid ei wendid yn hollol amlwg.

Ond, ba waeth ? Ni newidir ei farn amdano ei hun. Paham, hefyd na chaiff ef y fraint o fyw ar ei ddychymyg ? Ni bydd ef na neb arall ychwaith, o'r herwydd, yn llai gwybodus. Y mae'n eithaf gwir y gallai ef ddod yn fwy hyddysg. Eithr na fliner ef os yw'n bodloni ei hun yn y cyflwr hwn.

Os mai ffrwyth i'm dychymyg yw'r diogi hwn, y mae'r feddyg-iniaeth yn fy meddiant i. Pe dewiswn ei gadw neu ei waredu ni bydd neb arall yn dlotach nac yn gyfoethocach.

Daw cyflwr arall hefyd arnaf pan gredaf mewn gwirionedd fy mod yn ddiog.

Yna, penderfynaf ar gynllun i aros mor segur fel na fedraf feddwl am fy niogi.

Clywais am ddyn hynod o ofnus. Cerddodd unwaith am dair milltir drwy ganol gwlad unig ar noson dywyll iawn. Gwyddai'r sôn am fwciod a frithai'r fro honno. Dychwelodd o'i antur, a gofynnwyd iddo a fu arno ddychryn. Ai ateb digyffro oedd,—"Na, dim ond ofn cael ofn."

Yn y dull hwn yr arbedwyd ef rhag syrthio i drybini. Pwy a ŵyr na chaf innau'r un fraint wrth droi fy meddwl mor segur nes iddo fethu â chanfod fy niogi ?

Y mae cyflwr gwaeth yn bosibl i ddyn na'i sicrwydd ef ei hun ei fod yng nghrafanc diogi. Os medrir cadw'r dyfarniad yma yn unig i mi fy hun, ni phryderaf ddim. Eithr ofnaf iddo, gydag amser lithro i fysg fy nghydnabod. I rwystro'r drychineb honno mynegaf fy marn wrth gyfeillion. Dywedant hwythau ar unwaith nad oes berygl imi ddatblygu 'n ddiogyn o gwbl.

Pan ddysgwyd fi i chwarae'r bêl droed gyda thîm, gosododd y cyfarwyddwr reol euraid o'm blaen, "Mynnwch ymosod," meddai "er mwyn amddiffyn."

Weithiau, byddaf yn galw mewn tŷ arbennig. Ymhen tipyn gwahoddir fi i gwpanaid o dê. Dywedir wrthyf gan imi ddod yn ddi-rybudd eu bod yn amharod i'm derbyn. Ychwanegir,—"felly, bydd yn rhaid i chwi gymryd y pryd fel y mae."

Gwelir y bwrdd yn orlawn o ddanteithion fel mai diangen hollol i'm tŷb i, yw'r geiriau hyn.

Eithr enillodd y teulu hwn y dydd arnaf yn fy modd innau gyda'r diogi.

Wrth geisio dweud wrth eraill fy mod yn waeth nag yr wyf dangosaf fy hun yn well nag ydwyf.

Yn ddiweddar, taflwyd fi i benbleth gan ysgrif a ddarllenais. Ynddi profid bod pob dyn yn gweld o'i gylch yr hyn sydd ynddo ef ei hun. Rhoddwyd darlun o ddau ddyn yn edrych ar gae o wenith. Soniai un am werth y cnwd ym marchnad y cynhaeaf, a'i gyfoeth tan gronglwyd yr ysgubor. Ffermwr oedd hwnnw.

Dywedai'r llall am geinder yr ydfaes tan gyffyrddiad tyner yr awel, a'r darluniau byw a welai i'w ddotio. A bardd oedd hwnnw.

Creodd hyn oll gyffro yn fy ysbryd. Meddyliais am fy null diweddar innau o edrych ar ddynion o'm cylch. Bai a welwn ym mhobun. A'r un ffaeledd oedd hwnnw ym mhawb. Diogi oedd yn pydru esgyrn fy nghydnabod oll.

Ar y pryd eisteddwn mewn cadair gysurus o flaen tân gwresog. Ar fyr, daeth wyneb cyfarwydd i'm sylw. Gwyddwn i sicrwydd ers blynyddoedd mai diogyn oedd hwn.

Ar yr un amrant gwelais, i'r chwith, glorian helaeth i bwyso anifeiliaid. Mewn ffrwst, cydiais yn y dyn, arweiniais ef i'r fantol gan gau'r drws yn daclus ar ei ôl. Dywedais wrtho,—"dyma fy nghyfle i bellach i bwyso maint dy ddiogi."Trafodiais yn hamddenol y pwysau a geid ar y llawr. Gosodwyd un ar ôl y llall yn eu lle ar y dafol. I'm llawenydd, gwelais na wnaeth yr olaf o'r pentwr, gyda'i gilydd, gyffro dim ar y glorian. Deellais nad oedd gennyf ddigon o bwysau ar gyfer cymaint o ddiogi. O'r herwydd, bodlonwyd fi y tuhwnt i bob disgwyliad gan y dyfarniad hwn. Cerddais at y dyn i'w ryddhau. Safai yntau a'i gefn ataf. Agorais y drws gan alw arno i ddod allan. Wrth ei fod yn troi ei wyneb . . . dihunais i sylweddoli mai fi fy hun oedd yn cerdded o'r glorian.

Tystiolaeth unfryd fy nghyfeillion yw fy mod yn ddigon rhydd o grafanc diogi.

Mawr dda i'w calon am ddatgan y fath ddedfryd. Yn wyneb hyn tybiaf bod y mwyafrif o'r pentrefwyr hyn yn credu'n groes. O leiaf, gwthir y syniad arnaf trwy awgrym weithiau.

Dyn prysur wrth geisio gwneud dim yw Jones, y plisman. A'i farnu oddiwrth ei osgo, ef sydd yn dal y cread cyfan yn ei le. Un bore tesog o Fehefin cefais ef yn sefyll ar drothwy ei dir. Edrychai'n urddasol, a'i ddwylo ymhleth. Wedi imi ei gyfarch, nesheais ato i gael ychydig o oleuni ar bwnc a'm diddorai.

"Mr. Jones," meddwn, "meddyliais ofyn i chwi lawer gwaith un gofyniad."

"Beth yw hwnnw?" ebr yntau yn swrth.

"Am beth y cawsoch chi'r rhesi prydferth yna sydd ar lawes eich cot?"

"O," meddai yntau gan dorsythu mewn balchter, ac mewn modd awgrymiadol,—"Nid am ddiogi."

Gwelais yr ergyd yn syrthio arnaf, cyn ateb,—"na'n wir, Mr. Jones, dyna feddyliais innau, neu mi fyddech fel sebra yn rhesi i gyd."

Pwy sydd un nad yw'n ddau? Oni eill pellter y pegynau orwedd cydrhyngddynt? Gwelodd Jones y plisman un, ac atebwyd ef gan y llall.

Ychydig amser yn ol arfaethais i lunio ysgrif ar y testun—"Prysurdeb". Bu digon o bapur wrth law, a phensil yn barod a dyfelais am syniadau. Ni cheid dim hwyl i gyffro brawddeg at y ddalen wen. Dirwynodd yr oriau heibio, ond ni chefais ddwy linell ar glawr.

Heno, awyddais roi "Diogi" mewn erthygl.

A lwyddais i?

Un peth a wn i. Ni chefais nemor o drafferth i fod yn brysur wrth draethu ar "Ddiogi."

ANGLADD Y CRWYDRYN.

Ar ei ôl dim chwerw wylo,—ac olion
Galar nid oedd yno;
Gwerin ni ddaeth i'w gario
Na'i ddilyn, grwydryn, i'r gro.

I wael rych gul ei arch gwyn—a giliodd
O'r golwg yn sydyn;
Adref hebryngwyd crwydryn,
A'i gloi fel pawb yn y glyn.

Prengwyn. IFAN JONES.

"*Gwell yw Enw Da*" (*neu '68*).

YN yr Hydref a Gwilym ei hun ddim hanner da, cafodd lythyr oddiwrth Scweier Lloyd Alltyrodyn. Adwaenai'r sêl. Yr oedd mawredd hyd yn oed ar honno. Crynai'r llaw o feddwl am ei thorri. Cofiai'r neges annymunol a gafodd dan y sel fawr hon ddwy flynedd yn agos yn ôl. Edrychai ar y sêl a theimlai ei bod yn drueni torri peth mor hardd a'r sêl, oherwydd nid oedd awydd arno wybod y neges. Nid oedd ganddo syniad yn y byd am honno. Ni fedrai fod yn ddymunol. Ni ddisgwyliai ddim dymunol dan y sêl honno. Gwyddai fod y scweier yn ei gashau a châs perffaith. Y mae'n berigl gwrthwynebu scweier. Yr oedd yn gysur gan Wilym na fedrai'r scweier wneud rhagor o ddrwg nag a wnaeth iddo ef a'i gynulleidfa. Daeth y drysau clo yn fyw i'w gof, a phylodd ei drem gan hiraeth cyn ceisio ei ddarllain. Wedi ei ddarllain, ni ddeellai un gair ohono. Yr oedd mor wahanol i'r llythyr y disgwyliai iddo fod. Nid oedd amgen na nodyn cwrtais yn ceisio gan Wilym i alw drannoeth yn Alltyrodyn. Nid oedd awgrym o'r neges ynddo, ond yr oedd rhywbeth yn nhôn y llythyr a'i cymhellai i fynd. Ofer oedd ceisio dyfalu'r neges. Er hyn ni wnaeth ddim y noson honno ond dyfalu. Ni chredai am foment fod ym mwriad y scweier estyn yr hen gapel a'r fynwent yn ôl i'r gynulleidfa. Fe fuasai hynyna yn rhy dda i fod yn wir. Ni chaniateai Allen iddo pe bai hynny yn ei galon. Ni chredai ei fod ond yr oedd rhyw amcan i'r llythyr neu ni phlygasai'r scweier ysgrifennu. Ni chredai bod iddo amcan drwg oherwydd bod tôn y llythyr yn foneddigaidd. Yr oedd gan y scweier ryw gynnig iddo megis y cynnig gynt cyn cau y capel.

Brynhawn drannoeth wedi blino ar ddyfalu ceisiodd gan gyfaill ei yrru yno yn ei gerbyd. Ni ddwedodd ei neges a chredai ei gyfaill ei fod yn dechreu gwirioni. Ar y ffordd syllai'n hiraethus ar yr hen lwybrau annwyl, ac wylai fel plentyn wrth fynd heibio'r hen gapel cau a'r drysau a'r iet ynghlo. Cofiai'r waith gyntaf iddo gerdded yr hen lwybrau a phob tŷ a llannerch am y cyntaf yn adrodd wrtho gyfrinachau'r dyddiau gynt. Erbyn hyn yr oedd y cyfan yn rhan ohono ef ei hunan. Ni fedrai mo'i esbonio. Pe credasai mewn ail-ymgnawdoli, buasai'n sicr iddo gynt fyw yn yr ardal. Gan nad ydoedd, nid oedd ganddo esboniad i'w gynnig, onid oedd naws yr ardal yn dygymod a'i enaid : y mae ambell flodeuyn gartref mewn ardal newydd. Mewn myfyr felly dynesai at y plas—plas a fu unwaith yn annwyl gan ardal eang, ond ni fynnid mo'i enwi bellach. Gwrthryfelai rhywbeth ynddo yn erbyn y syniad o ymweled â'r plas. Nid oedd raid i'r gynulleidfa mwy grymu i scweier na stiward. Meddyliai am droi yn ôl ond buasai rhywbeth yn gowardaidd yn hynyna. Cerddodd at y drws fel

gŵr bonheddig, ac fe'i harweiniwyd yn barchus i ystafell am ennyd. Sylwai fod rhyw hud dros y cyfan, ac ai'r dirgelwch yn fwy bob cynnig. Syllai drwy'r ffenestr ar y dolydd breision a chlywai furmur yr afon yn y cwm islaw. Gwelai ar y llechwedd o'i flaen fferm Pen-y-banc neu'r WERNHIR, a darluniai iddo'i hun y gynulleidfa fach yn dod 'slawer dydd i wrando ar Jenkin Jones, yntau newydd ymadael a Phantycreuddyn gan bregethu Arminiaeth yn y Wernhir. Crwydrai'i feddwl hwnt ac yma. Ail-ddarllenodd y nodyn heb fod ddim callach. Nid oedd dim amdani ond gobeithio y cai oleuni gan y scweier. Ar y gair daeth y gennad i'w gyrchu at y scweier. Ni fedrai mo'i esbonio, ond yr oedd rhywbeth yn drymaidd yn yr awyr, ac edrychai pob un fel pe bai wedi gweld rhywbeth. Cofiodd Gwilym am ei grwydro yn ei gwsg bob nos, a theimlai rywsut ei fod yn gyfarwydd â'r ystafelloedd er na bu ynddynt, hyd y gwyddai, erioed o'r blaen.

Wedi dod i ystafell wely'r scweier yr oedd yn berffaith sicr. Edrychodd y scweier ac yntau ym myw llygaid ei gilydd. Nid oedd raid edrych yn hir cyn gweld fod yr hen dân ynghynn. Nid oedd yno arwydd o'r ysbryd ffein a'r galon faddeugar a allasai fod yno. Ofer wedi hanner trem oedd meddwl y ceid yr hen gapel yn ôl. Nid oedd waeth ganddo mwyach. Eto arosai cariad at yr hen gapel yn ei galon, a gwyddai y carai'r ardalwyr syml huno gyda'u tadau. Wedi'r cyfan beth oedd teimlad calon gwladwr syml i scweier?

Ar ei waethaf caledai'r galon ond tynerai eilwaith o weld golwg wael y scweier ar ei wely.

"Synnwch, debig iawn, i mi anfon amdanoch chwi o bawb," meddai'r scweier o'r diwedd, a deallai Gwilym nad o'i fodd yr anfonasai. Teimlai fod a fynno ei grwydro ef yn ei freuddwyd a phembleth y scweier.

"Nid anfonaswn," ychwanegai, "onibai nad oedd un ffordd arall amdani. Yr ych yn fy mhoeni bob nos. Cyn gynted ag y mae'r cloc yn taro deuddeg, fe'ch clywaf yn dod i fyny'r grisiau gan ocheneidio bob cam. Daliwch o'm blaen y cloion sydd ar y iet a'r drysau gan estyn imi'r allweddau i'w dadgloi. Echnos y oedd yn annioddefol. Nid y chwi yn unig oedd yma ond fe welwn y meirwon a'u cyrff di-gnawd yn estyn eu breichiau drwy farrau'r iet ac yn ceisio gennyf eu gadael allan. Ni fedraf mo'i ddal yn hwy. Yr ych yn fy lladd wrth y fodfedd. Ni cheisiaf ond am lonydd gennych. Pe baech yn ŵr bonheddig ymladdech yn agored yn hytrach na chyflogi ellyllon y fall i'm niweidio. Ofer cadw golau yma, ac ni erys nebun yma drwy'r nos ar ei grogi. O thybiwch y gorfodwch fi i agor y capel yr ych yn camsynied. Nid yw'n edifar gennyf am a wneuthum. Yr ych yn nychu eich hunan, a cheisiaf gennych adael llonydd i mi fel y disgwyliwch chwithau rywddydd lonyddwch."

Edrychai Gwilym arno fel un wedi'i syfrdanu. Credai ar y cyntaf ei fod allan o'i bwyll, ond dwedai gwedd y gwas a rhywbeth yng Ngwilym ei hunan ei fod yn dweyd y gwir.

"Mr. Lloyd," meddai Gwilym : "y mae'n ddrwg gennyf. Medrech gynt chwerthin a gwatwar Duw a phethau cysegredig, ond y mae cosp o hir ddilyn yn siwr o ddala. Ni wyddwn i fy nyfod yma, ond nid y marw a aflonydda arnoch ond eich cydwybod eich hun sy'n deffro ; y mae'r boen yn annioddefol. Ni chredaf y cewch lonydd yn fuan. Nid a myfi na'r marw ychwaith yr ymgodymwch ond â Duw. Ofer y cloion dur yn wyneb Duw. Gynt neu hwyrach fe orfodir Scweier Lloyd Galltyrodyn i blygu iddo ef. ond ofnaf y bydd raid iddo boeni llawer arnoch. Caled yw hi i wingo yn erbyn y symbylau. Fe fedrwch gael llonydd, ond rhaid i chwi ei geisio nid gennyf i na'r marw ond gan Dduw, a phe gofynnech i mi, dywedwn mai'r cam cyntaf i'w geisio ydyw trwy agor drysau clo ei dŷ ef."

"Ddyn," gwaeddai'r scweier, "ni chloiais i y Llwyn er i chwi bregethu yn fy nhŷ i. Ni chredaf mo'ch sothach. Dewch heno eto os mynnwch. Yr ych yn ddigon dienaid fel y dengys eich llythyron i mi."

"Ba lythyron ?" gofynnai Gwilym, yntau yn ei dro wedi gwylltu. "Nid ysgrifennais ond un nodyn erioed atoch. Nid oedd hwnnw yn anghwrtais ac nid ateboch mohono ychwaith."

Cododd y scweier ar ei fraich yn y gwely ac amneidiodd ar ei was. Daeth hwnnw, ac agorodd ddrar mewn cwpwrdd bach ynghornel yr ystafell, gan estyn i'r scweier barsel o lythyron wedi'i clymu wrth ei gilydd. Ni wnaeth y scweier ond eu hestyn i Gwilym. Cydiodd yntau ynddynt gan redeg ei fys drwyddynt.

Gwelwodd o glust i glust o ganfod diawlineb dyn. Edrychodd eilwaith ar yr ysgrifen, ac anghredai Gwilym dystiolaeth ei lygaid ei hun. Yr oedd y llawysgrif yn debig—yn eithriadol felly, ac nid oedd yn syn yn y byd i'r scweier gam-gymeryd. Nid oedd yn gyfarwydd â hi a phwy feddyliai y buasai arall yn ysgrifennu yn ei enw. Y mae dynion caredig yn y byd yma, ac nid y lleiaf caredig yw y llofrudd a ladd dyn a chyllell.

Ni ddeallai'r scweier mohono. Nid oedd yn deall ei hun. Ni ddaeth i feddwl y scweier nad oedd y llythyron yn ddilys. Chwarae teg iddo. Ni ddylasid ei feio am hynyna.

"Beth sy'n bod ?" gofynnai'r scweier yn syn. "Nid amheuwch waith eich llaw eich hun ?"

Nid atebodd Gwilym ar unwaith. Ni fedrai. Ni wyddai beth i ateb. Yr oeddent ill dau mewn pembleth. Amheuai y naill y llall ond o'r diwedd dywedodd Gwilym,—

"Ni ddisgwyliaf i chwi fy nghoelio. Nid yw o un gwahaniaeth. Ni wnewch. Ni'ch beiaf ychwaith am beidio. Ni byddwn nemor yn wahanol pe bawn yn eich lle, hwyrach, pwy wyr ? Dyma y

gwir, coeliwch neu beidio : nid ysgrifennais i ond un nodyn erioed i chwi a Duw yn unig ŵyr gwaith pwy yw'r lleill."

Chwarddai'r scweier yn anghredinio1, a throes Gwilym o'r ystafell —y naill mor fud a'r llall.

Yr oedd Gwilym wedi'i suro drwyddo ; nid yn gymaint yn y scweier ond mewn dyn a fedrai ysgrifennu llythyron yn enw dyn arall er ei bardduo yngholwg rhywun. Yr oedd yn diolch, serch hynny, iddo fynd. Yr oedd yn haws maddeu o wybod y cyfan. Ar ei liniau y noson hon gweddiodd Gwilym yn daer ar i'r scweier gael llonyddwch. Fe'i hatebwyd ond nid fel y meddyliodd. Drannoeth fe wyddai pawb fod y scweier wedi ei alw adref.

Trwm oedd calon Gwilym a'r un hawl yn dod yn ôl byth a beunydd —"Pwy yw awdur y llythyron ?"

Ni ddisgwyliai ateb, ac nid oedd dim amdani ond eu gadael rhwng rhywun a'i gydwybod ei hun.

* * *

Ymhen deuddydd neu dri ymwelodd Ianto Mali a'i hen gyfaill. Ni fedrai Gwilym beidio a dweyd wrtho am yr ymweliad a Gallt-yrodyn y prynhawn cyn marw o'r scweier. Dywedodd am y llythyron ac ni bu Ianto ar ôl heb awgrymu enw. Gwelwodd Gwilym am iddo awgrymu yr un a ddrwgdybiai yntau. Ni ddwedodd Gwilym ddim a thawodd Ianto.

Gwyddai Ianto fod ei hen gyfaill wedi'i theimlo hi i'r byw o golli y capel a'r fynwent, a hynny am iddo feiddio herio scweier a stiward. Carasai gynorthwyo ei gyfaill o'i weld yn gwaelu'n gyflym er nad achwynai ddim. Yr oedd meddwl amdano yn dweyd â dagrau yn ei lygaid ei fod yn rhoi'r capeli i fyny y Nadolig yn ormod i Ianto. Gwyddai wedyn fod Gwilym yn gwybod fod y diwedd heb fod ymhell.

"Y maent wedi ei ladd," meddai wrtho ei hun, gan wylo'n chwerw. O feddwl am Gwilym doi ei fam a 'slawer dydd yn fyw i'w gof. Yn sydyn daeth i'w feddwl y medrai helpu Gwilym, a phenderfynodd y gwnai ysgrifennu ati er nad oedd wedi'i gweld ers blynyddau. Nid oedd angen ei henwi. Yr oedd wedi cerdded allan o'i fywyd er mwyn urddas y teulu, ac ni wyddai Ianto beth a gostiodd iddi. Pe bai yn gwybod, hwyrach na buasai yn llawdrwm arni. Fel yr oedd ni feiai mohoni, ond gwyddai fod ei galon ei hun yn gwaedu byth oddiar hynny. Hwyrach fod ei chalon hithau. Ni edrych calon merch ar gyfoeth ac urddas yn unig. Beth bynnag bu yn ei feddwl am ddyddiau oherwydd fe ddrylliwyd ei obaith o glywed fod y scweier wedi gadael y cyfan i Allen gan anwybyddu ei chwaer Mrs. Massey. Yn ei anobaith clywodd y newydd fod Mrs. Massey yn amau'r ewyllys ac yn bwriadu dwyn yr achos ger bron llys gwlad.

Yr oedd ardal gyfan y tu cefn iddi, a dylasai ennill ei hachos oherwydd offrymid llawer gweddi ddistaw ar ei rhan a "llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn". Yr oedd un peth yn sicr, gweddiai Ianto fel y gweddiai gartref ys llawer dydd ar yr hen aelwyd. Y noson wedi clywed y newydd nid aeth Ianto i'w wely. Yr oedd ei galon yn rhy lawn. Ni fedrai oedi yn hwy. Teimlodd fod yr allwedd yn ei law. Credai yn ffyddiog y buasai cael y capel a'r fynwent yn ôl yn help i Gwilym: o'r hyn leiaf fe fuasai yn sicr o farw yn fwy dedwydd. Yr oedd Ianto yn barod i wneud unpeth er cyrraedd ei amcan. Ysgrifennodd ddegau ar ddegau o lythyron ond ni fodlonai yr un ohonynt mohono. Ysgrifennu a llosgi ar yn ail oedd hanes y nos honno. Nid gwaith rhwydd oedd ysgrifennu at ei hen gariad, a honno wedi troi ei chefn arno. Ni wyddai yn iawn sut i ofyn cymwynas ganddi. Ni fynnai ddweyd gormod ac yr oedd perigl o ddweyd rhy fach. Ni phlygasai onibai am Gwilym. O'r diwedd llwyddodd i fodloni ei hun, ond synnai fod ei lawysgrif mor grynedig. Nid oedd raid iddo o gofio popeth. Nid ynganodd air wrth neb ond yr oedd yn bryderus. Gyda throad y post fe gafodd ateb, ond ni wyddai beth i wneud ohono. Yr oedd yn rhy ffurfiol o lawer i fod yn wir, a cheisiai Ianto feddwl am y drafferth a gostiodd iddi i'w ysgrifennu felly. Wedi meddwl a meddwl daeth yn fodlon ar yr ateb. Ni charai iddo fod yn wahanol. Yr oedd yn ei hadnabod a gwyddai y gwnai a addawsai. Nid oedd ganddo ddim i'w wneud felly ond gobeithio a disgwyl. Ni chymerai'r byd am i Gwilym ddod i wybod. Costiodd y llythyr fwy iddo nag yr addefai. Yr oedd yr hen greithiau wedi agor a pherigl iddynt droi'n wenwynllyd. Nid oedd dim i'w wneud ac nid oedd yn edifar ganddo am a wnaeth. Gwyddai a gostiodd i Gwilym ac yr oedd yn fodlon gwneud unpeth er ysgafnhau ei groes.

Aeth achos Allen v. Mrs. Massey i'r uchel-lys, ond er cymaint disgwyl ardalwyr syml dyffryn Cletwr ni frysiai'r gyfraith. Nid oes frys arni o cheir asgwrn i'w bilo. Ni wyddai Ianto am bryder Allen na Mrs, Massey ond credai yn gydwybodol nad oedd yn fwy na'i bryder ef ei hun. Nid er ei fwyn ei hun y pryderai ef ond er mwyn Gwilym.

Yn ystod y dyddiau hyn ymwelodd chwaer Capten Thomas a Mrs. Massey. Yr oeddent yn hen ffrindiau gartref 'slawer dydd ond nid oeddent wedi gweld ei gilydd ers tro bellach. Yr oedd Mrs. Massey yn falch ei gweld yn ei gofid a'i phryder, ac nid oedd hithau ar ôl heb ddymuno o galon iddi gael ystad ei theulu rhag iddi fynd i ddwylo gŵr fel Allen a oedd wedi dwyn enw Lloyd i'r llaid dan draed y byd.

"Gwyddech," meddai Mrs. Massey, "nad oedd fy mrawd o feddwl cryf crioed, a chymryd ei arwain wnaeth, yr wyf yn sicr, cyn iddo crioed ganiatau cloi capel y Llwyn a'r fynwent."

"Er mwyn yr hen amser gynt," meddai'r ymwelydd, "yr wyf

am i chwi addo un peth, pan gewch eich hawliau gan y llys ac fe'u cewch, yr wyf am i chwi symud y staen oddiar enw eich teulu drwy agor y capel a'r fynwent a'u hestyn yn ôl i'r gynulleidfa fel cynt; ni chredaf y daw daioni i neb o wneud gweithred atgas fel yna."

Ni ddadleuwyd achos erioed yn fwy teilwng na'r prynhawn hwnnw. Ni ddeellai Mrs. Massey y diddordeb a gymerai yn yr hen gapel. Gwyddai mai Undodiaid oedd y teulu, ond yr oedd rhywbeth yn rhagor na hynyna yn cyfrif am ei hyodledd. Ni wyddai hi am ramant y dyddiau gynt na llythyr Ianto.

"Nid oes raid i chwi ymbilio â mi dros gynulleidfa'r Llwyn," meddai Mrs. Massey, "ond pe bai ni chawsai eiriolwr gwell. Yr wyf yn benderfynol, os enillaf y gyfraith, i estyn y capel a'r fynwent yn ôl i'r gynulleidfa. Y mae tegwch a pharch i dŷ Dduw yn ddigon er i mi wneud hynny, ac y mae'n dda gennyf fy mod yn hollol o'r un meddwl a chwi."

Ymwahanodd y ddwy gyfeilles, ac ar y ffordd adref ysgrifennodd gerdyn heb enw na chyfeiriad arno i Ianto. Ceisiai ddychmygu Ianto yn darllain y cerdyn drannoeth a dehongli'r neges,—

"AR FYR, CEWCH DDYMUNIAD EICH CALON."

Cyn pen bythefnos rhoes y barnwr ei ddedfryd o blaid Mrs. Massey er llawenydd i ardal gyfan. Ni ofalai Gwilym ond carai i Mrs. Massey gael cyfiawnder. Ni ddaeth i'w galon y buasai hi yn wahanol i'w brawd. Ni feddyliodd ddim am hynny o gwbl.

Ar y bedwaredd-ar-hugain o Orffennaf gwyddid fod Mrs. Massey nid yn unig wedi ennill y dydd ond yn dod y dydd hwnnw i Landysul ar ei ffordd i'w hen gartref. Ni welwyd dydd tebig er etholiad '68. Yr oedd yn ddydd gwyn yn y pentref a'r baneri yn cyhoeddi croeso i aeres Alltyrodyn i'w threftadaeth. Ni feddyliai nebun am waith. Yr oedd y pentref yn llawn o bobl yn eu dillad Sul wedi dod o bell i roesawu Mrs. Massey. Ni thawodd y tren o Bencadair i Landysul, a phan y'i gwelwyd aeth y dorf enfawr yn wallco. Ffurfiwyd gorymdaith o gannoedd o bobl, ac ofer sôn am geffylau i dynnu'r cerbyd. Yr oedd yno ddigon o wŷr cyhyrog yn barod i'w dynnu y pum milltir o'r ffordd i Alltyrodyn. Golygfa i'w chofio ydoedd, a'r seindorf bres ar flaen y rheng.

Bob canllath neu lai yr oedd y "cwinteni" yn dweyd am groeso ardal, a honno wedi colli arni'i hunan. Wedi cyrraedd Prengwyn ceisiodd Mrs. Massey gan yr orymdaith aros a gofynnodd am saer yr ystad. Yr oedd wrth y rhaff. Rhoes orchymyn iddo ac aeth yntau ar ei union. Rhedai o flaen y dorf fel dyn wedi colli arno'i hunan. Brasgamai am y Llwyn gan gofio y diwrnod du hwnnw y cafodd y gorchymyn i gloi'r iet a'r drysau. Ni chafodd saer, o gofio ei fod yntau yn aelod o'r Llwyn, orchymyn mwy annymunol gan scweier erioed. Gwyddai oni chloiai ef, y gwnai arall, a chofiai iddo adael un ffenestr heb ei *chlipio* y diwrnod hwnnw. Ryw awr

ginio ymhen rhai dyddiau, ac yntau yn gweithio yn Alltyrodyn, aeth ar ei union i'r hen gapel: cododd y ffenestr a chliriodd y llyfrau o'r capel.

Cofiai am hyn i gyd wrth garlamu ar ei neges heibio y Ty-Coed—capel un-nos y gynulleidfa tra godid y capel newydd. Ag yntau yngolwg y capel, cofiodd nad oedd ganddo forthwyl na dim er tynnu ymaith y cloion. Ni freuddwydiodd y buasai eu heisiau arno—y diwrnod hwn o leiaf, ond cofiodd iddo weld rhyw ddeuddydd yn ôl hen swch aradr yn ydlan tafarn y New Inn. Aeth i'w cheisio ar ei union. Yr oedd yn rhŵd i gyd. Nid hir y bu cyn dechreu ar ei waith, ac ni ddefnyddiwyd swch-aradr gyda'r fath rym erioed o'r blaen. Adseiniai'r dyrnodiau ymhell ac agos. Ni bu yn hir wrth yr iet a dechreuodd ar y drysau. Cyn iddo gael y clo olaf i ffwrdd yr oedd pen yr orymdaith wrth yr iet a'r cerbyd wedi aros. Yr oedd gwên ar wyneb Mrs. Massey o weld y clo yn mynd yn gandryll tan ddyrnodiau yr hen swch aradr.

Cerddodd Mrs. Massey drwy'r iet a fu ynghau cyhyd gan daflu drws y capel led y pen i'r gynulleidfa a'r gweinidog. Ni fedrid llai nag wylo deigryn o weld Gwilym megis o drothwy'i fedd yn mynd i mewn drwy y drws er taflu cipdrem ar ei hen bulpud annwyl.

Ynghanol banllefau o gymeradwyaeth y troes Mrs. Massey am Alltyrodyn, ac ardal gyfan yn cyd-orfoleddu â hi.

Teimlid fod gormes wedi cael dyrnod marwol a chwerddid wrth y tân y noson honno o feddwl am Watkin yn dryllio'r cloion â'r hen swch aradr. Yr oedd calon ardal yn ysgafnach nag y bu er dyddiau tywyll '68.

Gorfoleddai Ianto ond ofnai ei bod yn rhy ddiweddar o weld Gwilym yn edrych mor wael. Yr oedd yn cilio bob dydd, ond diolchai iddo gael ei ddymuniad. Gwaethygai'n gyflym, cyflym. Ofnid na chai weld y deml newydd. Ymhen rhyw ddeg wythnos o gael yr hen deml i'w dwylo, agorwyd y deml newydd. Er bod y gynulleidfa a'r ardal yn gorfoleddu yr oedd cysgod dros y cyfan—cysgod adain angau fel cysgod curyll yn y nef cyn ei fod yn disgyn ar rywbeth. Ar waethaf y cysgod teimlid fod dyddiau scweier a stiward wedi'u rhifo am byth yn nyffryn Cletwr. Cyn pen nemor o ddyddiau daeth Gwilym eilwaith heibio—heibio'r hen a'r newydd, gan oedi ennyd ar y glâs o flaen y capel newydd, yn y man ymhen rhyw ddeufis y daearwyd ei weddillion er canu'i brofiad,—

"Unwaith mi gefais weled
Y demel brydferth hon:
Ac edrych ar ei harddwch
Llawenydd yw i'm bron:
Ond pan yr wyf yn cofio
Yr Hen Adeilad lwys,
Daw dagrau i fy llygaid
A chwyd ochenaid ddwys."

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD
DEHEUDIR CYMRU

GOLYGYDD—
Y Parch. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., LLANBEDR.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

— CYFRES LLANBEDR. —

CYFROL 33.
1933.

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

CYNNWYS.

Adolygiad, 208.
Addunedau Dechreu Blwyddyn, 9.
Angladd y Crwydryn, 189.
Arholiad yr Ysgol Sul, 132.
Au Revoir ! 185.

Canmlwyddiant Rebel, 17,
Cipdrem ar Hanes y Faenor, 26.
Concwest Olaf Angau, 201.
Cwymp y Dail, 175.
Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod, 29.

Dau-canmlwyddiant geni Joseph Priestley, Ll.D., F.R.S., 49.
Diogi, 187.
Dy Dad a ŵyr, 80.

Englynion Coffa, 152.

Gruffydd Jones Davies, Penlan, 42.
Gruffydd Jones, Frowen (Atgof a Myfyr), 171.
Gwanwyn, 37.
Gwawr y Gwanwyn, 33.
Gwell yw Enw Da (neu '68), 65, 87, 121, 137, 153, 176, 190.
Gwŷr Pentyrch—
I.—Runner, 54 ;
II.—Atlas, 73.
III.—Boxer y Ceffyl Blaen, 126.
IV.—Y Gŵr Bethma, 142.
V.—Y Twrch Daear, 160.

Hannah Davies, 81.

I ddiolch am lestriaid o fêl, 76.
Ithel, 13.

John Davies o Gefncoed, 203.
John Lewis, Pontypridd, 28.
Jones y Neuadd, 3.

Karl Marx a'i Efengyl, 58.

Lloffion, 7.

Marwgofion, 15, 30, 45, 61, 77, 95, 134, 151, 168, 180, 207.
Medi, 151.
Mrs. D. G. Rees (er cof), 169.

"Nitchevo", 1.
Nodion y Golygydd, 94.
Nodion yr Eglwysi, 16, 31, 46, 63, 79, 96, 136, 151, 168, 182, 208.

Oddiar y Tŵr, 146, 197.
O Gell Atgof, 130.

Pantydefaid a'r Graig, Llandysul, 165.
Priodasau, 30, 77, 95, 134, 167, 207.
Pwyllgor Gweithiol y Gymdeithas, 167.
Pwyllgor y Pasc, 92.
Pwyllgor yr Hydref, 206.

Rhydygwin a Chiliau, 84.

Sylwa a Mynega ! 150.

Tomos Glyn Cothi, 97.
Eto—Apostol Rhyddid, 105.
Eto—Yr Undodwr, yr Emynydd, y Golygydd a'r Cyfieithydd, 111.
Tonau—
Caroline, 152.
Dŵr i Ni, 202.

Urdd y Benywod, 93.

Wrth y Tân, 24.

Y Cyrddau Chwarter yn y Cefn, 86.
Y Glowr, 80.
Y Gragen Wâg, 76.
Y Gwallt Gwyn, 80.
Ymson—
Dyn a'i Gwestiynau, 52.
Llyfr Job a'i Broblem, 163.
Orig gydag Emerson, 173.
Rhyfeddodau'r Cread, 70.
Y Pwyllgor Blynyddol, 148.
Y Rhew, 21.
Ysbrydegaeth, Bywyd a Chrefydd, 34.

Hunodd ar yr unfed-ar-ddeg o Ragfyr 1879, a noda croes o farmor gwyn ei fedd cynnar ym mynwent capel newydd Llwyn-rhydowen, ond ni fedr daear ei fedd mo'i guddio. Y mae fel rhuddin derwen ynghymeriad ardal. Trig ei ysbryd mawr yng ngwladwyr syml ei fro y sy'n byw fel dynion ; ynghalon brydferth llafurwyr gonest y sy'n gwneud crefft o blygu perth neu godi clawdd, ac yng nghymeriad gonest ac union y neb sydd a chalon digon mawr ganddo i herio trais a gorthrwm sceweier a stiward, costied a gostio.

Yn ystod rhyw ugain mlynedd gweodd edafedd gryfach a phrydferthach i batrwm cymeriad ardal, a gŵyr gormeswyr gwerin wytned yr edafedd honno bellach.

Dysgodd ei ardal fechan wledig i garu rhyddid yn anghorddol, ac i fyw ei chrefydd ymhob cylch o fywyd, ym mwth y fotio a cher allor Duw, ar ddydd gwyl ac ar ddydd gwaith.

Aberthodd ei fywyd er cael y gwladwyr syml i brisio cymeriad yn uwch nag unpeth arall, a thystia perarogl ei fywyd yn Nyffryn Cletwr mai

"GWELL YW ENW DA"

NA CHYFOETH LAWER.

Oddiar y Twr.

UN garreg filltir arall yng ngyrfa'r YMOFYNNYDD ! Gydag ymddangosiad y rhifyn hwn, daw "Cyfres Llanbedr" i'r terfyn. Nid gorchwyl anniddorol, i mi, o leiaf, ydyw taflu cipdrem tros ei hanes, er ei gychwyn ym Medi, 1847. Chwe blynedd a phedwar ugain ! Tymor maith yn hanes Cylchgrawn yw hwn.

* * *

Ei olygydd cyntaf oedd y Parch. J. E. Jones o Benybont. Bu ef wrth yr helm hyd ganol 1865. Deunaw mlynedd, felly, a fu parhad ei olygiaeth ef. Nid tymor difwlch : bu seibiant o thua phum mlynedd. Parhaodd y gyfres gyntaf o Fedi, 1847, hyd Ebrill, 1854 ; yr ail, o Ioanwr, 1859, hyd Mehefin, 1865. Bu'r golygydd farw yn Chwefror y flwyddyn ddilynol.

* * *

Yn Ionawr, 1868, ail-gychwynwyd tan olygiaeth y Parch. D. L. Evans, Athro yng Nghaerfyrddin. Bu ef yn y swydd hyd Rhagfyr, 1872, pryd yr ymneilltuodd. Byr fu ei hunell y tro hwn—deffrôdd ym Mawrth dilynol, tan olygiaeth y Parch. R .J. Jones, M.A., Hen Dŷ Cwrdd. Bu dau dymor i'w olygiaeth ef—y cyntaf, hyd Chwefror 1879 ; yr ail, o Medi, 1881, hyd Rhagfyr, 1887.

Olynwyd ef gan y Parch. J. Hathren Davies ; a bu yntau yn y gadair hyd Rhagfyr, 1900. O Gefncoed, aeth i Landysul, ddechreu 1901, tan olygiaeth y Parch. T. Arthur Thomas, gyda Sarnicol fel golygydd y Farddoniaeth. Yn Hydref, 1903, daeth y Parch. W. James, B.A., yn gyd-olygydd. Parhaodd yr olygiaeth yn driphlyg hyd Awst, 1907, pryd y gorfuwyd i Mr. James ymneilltuo oherwydd cyflwr ei iechyd, a derfynodd yn fuan wedi hyn yn ei farw cynnar. Bu Mr. Thomas yn olygydd hyd ddiwedd 1926.

* * *

Ar ymddiswyddiad Mr. Thomas, penodwyd y Parch. T. Oswald Williams, M.A., yn olygydd, a dechreuodd "Cyfres Llanbedr". Ymddiswyddodd yntau, a phenodwyd y Parch. T. L. Jones, Cefncoed, yn olynydd. Dechreu ef ar ei orchwyl yn y flwyddyn newydd.

* * *

Ail-adrodd ffeithiau sychion a wneir yn y nodiadau uchod ; eithr, yn o debig, o chymer y darllenwyr hamdden i sylwi arnynt, nid anniddorol iddynt mo'r amlinelliad o hanes ein hunig gylchgrawn. Hanes hir ydyw ; ie, hanes anrhydeddus ddigon, yn wyneb anhawsterau mawr.

* * *

Aml i dro y darfu imi daflu golwg tros ei gynnwys o'i ddechreu—gorchwyl dymunol, diddorol, ac addysgiadol. O droi dalennau'r cyfrolau cyntaf, un ar ôl y llall ; yna, o daflu golwg tros ddalennau'r cyfrolau diweddaraf, yn enwedig eiddo'r ugain mlynedd diweddaf, ni allwn osgoi sylwi ar y cyfnewidiad graddol a ddaw i'r golwg fel yr ai ymlaen o gam i gam hyd ei yrfa hir ; y cyfnewid, yn arbennig, yn y pynciau a gai sylw'r ysgrifenwyr.

* * *

O agor y gyfrol gyntaf—rhifynnau y tair blynedd gyntaf—sylwaf ar benawdau rhai o'r prif erthyglau : Pechod Gwreiddiol ; Iawn i gyfiawnder ; yr enw Sosis ; y Drindod ; Ysbrydoliaeth yr Ysgrythurau ; Calfiniaeth ; Cosbedigaeth Ddiddiwedd ; Undod Duw ; Cosb ddirprwyol ; Cyfryngwriaeth Crist ; adnod y Tri Thyst ; ac yn y blaen. Nid arwynebol, ychwaith, mo'r driniaeth o'r pynciau hyn a'u tebig ; traethir arnynt, yn hytrach, gyda'r trylwyredd na edy un agwedd o honynt heb ei ddihysbyddu ; ac amlyga'r awdwyr feistrolaeth addysgol a bery inni syndod ac a ddeffry ein hedmygedd.

* * *

Awyrgylch ddiwinyddol, felly, fel y gwelir, oedd awyrgylch nodweddiadol ein Cylchgrawn yn nechreu ei yrfa. Dyna pam y'i cychwynwyd—i ddinoethi a ystyrrid yn gyfeiliornus yn niwinyddiaeth boblogaidd yr adeg, ac arwain yn ôl at y Gristionogaeth seml fel y'i dysgwyd gan yr Athro. A bu'n ffyddlon i'w genadwri broffesedig. Nid gyda menyg ar y dwylo y brwydrid, ychwaith,

eithr gyda chleddyf dau finiog rheswm a synnwyr cyffredin. Do, yn sicr, fe gyflawnodd y tadau Undodaidd eu gorchwyl gyda ffyddlondeb digyffelyb—a chyda llwyddiant mawr.

* * *

O gymryd cam hir tros y blynyddoedd hyd at y cyfresau diweddaraf, y gofyniad a ddaw i'm meddwl ydyw—beth am danynt? Pa sawl erthygl ar y Drindod, ac anffaeledigrwydd y Beibl, ar Dduwdod Crist, ar Dragwyddol Gosb, heb sôn am ragor, a fu ar ei ddalennau? Onid nodedig ydynt ar gyfrif eu habsenoldeb?

* * *

Nid sicr ydwyf na ddarfu imi glywed peth achwyn oblegid hyn. Pam nad ymdrinid, meddid, â phynciau'r ffydd, fel y gwneid gynt Nid teg mo'r achwyn; ac amlyga'r sawl a achwyn ddiffyg gwybodaeth o'r cynnydd rhyfeddol a nodwedda'r pedwar ugain mlynedd hyn yn y mater o syniadaeth grefyddol. Y sefyllfa yw hyn—bod ymron pobun o'r pynciau a ennwyd wedi colli'u diddordeb; a thebig i guro celain a fuasai traethu arnynt.

* * *

Trindod, er enghraifft: defnyddir y gair; eithr gair ydyw, bellach, y sydd wedi'i agweddu ymron o fod. Dyna sydd wir am bobun o'r pynciau a ystyrrid gynt yn rhan hanfodol o'r ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint. Anffaeledigrwydd y Beibl: wedi mynd. Cosb diddiwedd: ni sonir am y fath hunllef frawychus. Duwdod Crist: nid yw wedi diflannu; eithr nid Duwdod yn yr ystyr a roddir i'r gair yn y credoau mo hono mwyach. Awyrgylch hollol wahanol i eiddo'r tadau ydyw awyrgylch ein dydd ni ym myd diwinyddiaeth.

* * *

Ni fynnwn i'r darllenydd gasglu bod y frwydr wedi'i llwyr ennill—bod y syniadau a dybid gynt yn syniadau hanfodol yr Efengyl wedi'u gwthio o fod. Yn un o'r papurau crefyddol Saesneg, er enghraifft, dadleu un, ac yntau'n athro Coleg Diwinyddol un o golegau un o'r enwadau poblogaidd, mai credo'r Apostolion a chredo' Nicea ydyw'r safonau eto, fel cynt.

* * *

Pa nifer o'n darllenwyr, tybed, a ŵyr gynnwys y ddwy gredo. Nid anniddorol iddynt a fyddai troi o honynt i lyfr "gweddi cyffredin" yr Eglwys, a'u darllen. Wedi iddynt orffen, gallant droi at a elwir yn "Gredo Athanasius".

* * *

Hereticiaeth gweinidog Bedyddiol yn yr Alban a berodd i'r athro Coleg y cyfeiriwyd ato ddywedyd a ddyfynnir. Gyda llaw, onid peth newydd i'n dydd ni, ac anghyson ag ysbryd yr oes, ydyw diarddel gweinidog ar gyfrif ei syniadau? Mater i'r enwad a

ennwyd yw hyn, modd bynnag ; eithr, i ni, mwy diddorol yw'r ddadl eithriadol boeth a ddilynodd y diarddeliad.

* * *

Dyma eiriau un gweinidog : " Yr wyf wedi darllen credo'r Apostolion. Cynnwys y gredo ugain o osodiadau. Anghredaf ddeg o honynt. Ni chredaf yn y cenhedliad gwyrthiol, yn yr Enedigaeth o Forwyn, yn y Disgyniad i uffern, yn yr Atgyfodiad, yn yr Esgyniad, yn yr ail-ddyfodiad . . . Gwn y ffynna cyffelyb olygiadau ymhlith nifer luosog o aelodau Eglwysig—yn weinidogion a lleygwyr."

* * *

" Nid y Beibl yw ein safon," medd arall ; " ni wn i am un safon ond ein Harglwydd a'i Ysbryd. A drwgdybiaf bob ymgais, nad o ba le y daw, ai o Genefa, ynteu o'r Almaen, ynteu o Rydychen, a berygla'r rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni."

* * *

O ffynhonellau Saesneg y daw'r dyfyniadau uchod ; a hawdd y gellid lluosogi'u cyffelyb. Na, yn y maes diwinyddol, nid aros yn yr unman a wneir, eithr cynyddu'n gyflym tua syniadaeth mwy teilwng, mwy cydfynedol â rheswm ac â'r wybodaeth oreu a feddwn. Pam y rhaid i neb gylymu ei hun wrth gredoau â llwydni henaint yn drwm arnynt, ac a gynnwys syniadau y gwrthryfela pob rheswm diwylliedig yn eu herbyn ?

* * *

Beth am Gymru ? Ydyw'r olwg newydd ar bynciau crefydd (eto) heb gyffwrdd â'r meddwl crefyddol Cymreig ? Nid felly, yn sicr ; nid digon mo Clawdd Offa, ucheled y bô, i gadw llifeiriant meddyliol ein hoes rhag rhuthro trwyddo. A rhuthro trwodd a wna gyda nerth cynyddol.

* * *

Cyfyd cwestiwn arall—ydyw Undodiaeth wedi gorffen ei gwaith ? Nac ydyw, mewn un modd ; dim ond newid y cyfeiriad—dyna'r cwbl. Y perigl ydyw—i ni, o broffeswn ein hunain yn bleidwyr o honi, gael ein gadael ar ôl yn y mynd ymlaen tuag at syniadaeth grefyddol well a theilyngach. Nid dymunol mo'r ensyniad (a glywir yn achlysurol) bod addysg y pulpud Undodaidd y dydd presennol yn fwy iawnffyddol na hyd yn oed addysg y pulpud a elwir yn iawnffyddol.

* * *

Dyma gwestiwn arall—beth am yr enwad Undodaidd—yr enwad, sylwer, ac nid y mudiad Undodaidd : y mae gwahaniaeth mawr rhwng y ddeuair hyn. Nid hoff ydwyf o'r gair enwad; eithr o ddiffyg ei well i fynegi a olygaf, dyna'r gair a ddefnyddiaf. Yr unig ateb a ddaw i'm meddwl ydyw—nad gobeithiol y rhagolygon.

Peth tros amser yw enwad, nad beth ei enw na'i liw. Daw i fod heddiw ; rhed ei yrfa am dymor mwy neu lai hir ; maes o law, daw hadau dirywiad i'w gyfansoddiad, a diflanna'n raddol ; neu, fe'i newidir naill ai yn ei amcan neu yn ei gyfeiriad. A chredaf y daw dydd—ryw ddydd, ymhell o bosibl, pan na fydd enwad—" pan na fydd corlan ond un trwy'r byd yn bod, a Christ yn ben ei hunan, nid teyrn, nid Pab dinod "—ys dywedodd un o'm rhagflaenwyr yng Nghribyn.

* * *

Breuddwyd ydyw hyn eto—breuddwyd na sylweddolir mo hono oesau hir. Eithr hyd yn oed pe dirywio a diflannu o fod yn y dyfodol agos neu bell a wna'r *enwad* Undodaidd, rhag ei flaen yr â'r gwirionedd tu ôl i'r enw—o bwyll i bwyll, o ddawn i ddawn—nes buddugoliaethu. " Felly fy nghred " i, o leiaf.

* * *

Gair personol wrth derfynu. Er cychwyn " Cyfres (gyntaf) Cefncoed " yn 1888, bûm yn gyfrannwr gweddol gyson trwy'r blynyddoedd i golofnau'r YMOFYNNYDD. Posibl ydyw imi ysgrifennu gormod ym marn rhai. Eithr bu'r gorchwyl, i mi yn bersonol, yn ffynhonnell o bleser mawr iawn. O ddarllen a ysgrifennais, fel y gwnaf yn achlysurol, pan na theimlaf yn awyddus i wneuthur dim arall, nid boddhaol imi mo'r cwbl. Dwg gryn dipyn a ysgrifennais arwyddion o frys mawr, na fedrwn mo'i osgoi tan yr amgylchiadau. Ac yn awr, gyda dechreu " Ail gyfres Cefncoed," têg ydyw imi gilio o'r neilltu, a rhoddi lle i rai ieuengach. A'm gair olaf ydyw—dymuno i'r Golygydd newydd gefnogaeth lawnach a llwyddiant mwy amlwg na fu'n rhan i'w ragflaenwyr yn y gadair olygyddol.

D.E.

"DEATH'S FINAL CONQUEST "—(*Shirley*).

"CONCWEST OLAF ANGAU."

UCHEL achau bri daearol !
Nid sylweddol ydynt hwy,
Nid oes darian byth rhag tynged
Angau rydd i'r goron glwy.
A theyrnwiail a choronau—
Oll a fethrir ar y llawr,
Gyda'r cryman cam â'r ceibiau,
Yno'n gydradd maent yn awr.

Dynion rai â'r cledd enillant
A gosodasant lawryf gwyrdd,
Ond eu nerthoedd hwythau ballant
Dofi'i gilydd yw eu ffyrdd ;
Hwyr neu hwyrach hwy a blygant
A gadawant bawb eu cledd,
Pan at Angau yr ymlusgant,
Garcharorion gwael eu gwedd !

Ar eich pen y blodau wywant,
O'ch gorchestion na wnewch fawr,
Y gorchfygwr gorchfygedig
Sydd ar allor Angau'n awr.
Ac fe syrthia o'r hil ddynol
Bawb i'r pridd yn wael eu gwedd,
Ond blodeua cof y cyfiawn
Ac arogla'n bêr o'r bedd.

Pontshan. JAMES R. JONES.

DŴR I NI.

Cyflwynedig i Howell Jones, Ysw., Tivy View, Llanybyther, fel arwydd o barch diffuant.

M. M. C. Jones, C.M., Llanon.

Doh G. *Dau guriad i'r mesur, ac nid yn rhy gyflym.*

:	.s₁	d	.d	:d	.r	m	.m	:–	.f	m	.d	:m	.r	d	:–	.
:	.s₁	s₁	.d	:d	.t₁	d	.d	:–	.r	d	.d	:d	.t₁	d	:–	.
:	.m	m	.l	:s	.f	s	.s	:–	.s	s	.fe	:s	.f	m	:–	.
:	.d	d	.f	:m	.r	d	.d	:–	.t₁	d	.l₁	:s₁	.s₁	d	:–	.

Dŵr, dŵr yw cainc a - de - ryn, O'i le ar lonydd lwyn;

:	.d	f	.f	:m	.m	r	.r	:–	.d	t₁	.t₁	:l₁	.l₁	s₁	:–	.
:	.d	d	.r	:d	.d	r	.r	:–	.l₁	s₁	.s₁	:fe₁	.fe₁	s₁	:–	.
:	.m	f	.s	:s	.fe	s	.s	:–	.r	r	.r	:d	.d	t₁	:–	.
:	.d	l₁	.t₁	:d	.l₁	t₁	.t₁	:–	.fe₁	s₁	.s₁	:r₁	.r₁	s₁	:–	.

Dŵr, dŵr, medd pob glaswelltyn, Neu chwerw fydd fy nghŵyn;

:	.s₁	l₁	.t₁	:d	.r	t₁	.d	:r	.f	m	.m	:r	.r	s	:–	.
:	.m₁	f₁	.s₁	:s₁	.t₁	s₁		:s₁	.r	d	.d	:t₁	.t₁	s₁	:–	.
:	.d	d	.r	:d	.s	s		:s	.s	s	.s	:s	.s	d	:–	.
:	.d	f₁	.f₁	:m₁	.s₁	s₁	.l₁	:t₁	.t₁	d	.d	:s₁	.f₁	m₁	:–	.

Dŵr, dŵr yw cri'r rho - syn - nau, A'r nef yn llond eu gwedd;

:	.s₁	l₁	.t₁	:d	.r	m	.d	:l₁	.f	m	.m	:r	.r	d	:–	.
:	.m₁	f₁	.f₁	:s₁	.s₁	s₁		:f₁	.l₁	d	.d	:t₁	.t₁	d	:–	.
:	.d	d	.r	:d	.t₁	d		:d	.r	s	.s	:f	.f	m	:–	.
:	.d	f₁	.r₁	:m₁	.s₁	d	.m₁	:f₁	.r₁	s₁	.s₁	:s₁	.s₁	d	:–	.

Dŵr, dŵr at-sein-iwn nin - nau, I'n hiechyd da a'n hedd.

Cytgan. *Y nodau italaidd i'r Offeryn.*

s	.m	:*d*	.*s*	s	.m	:*s*	.*m*	s	.m	:r	.m	f	.m	:m	.r	m	.r	:d	.r	m	.fe	:s
d	.d	:*s*	.*m*	d	.d	:*m*	.*d*	r	.d	:t₁	.d	t₁	.d	:d	.t₁	t₁	.t₁	:l₁	.l₁	d	.d	:t₁
m	.s	:*m*	.*d*	m	.s	:*d*	.*s*	s	.s	:s	.s	f	.s	:s	.s	se	.m	:m	.m	r	.r	:r
d	.d	:		d	.d	:		t₁	.d	:s₁	.d	r	.d	:d	.s₁	m₁	.se₁	:l₁	.l₁	r₁	.r₁	:s₁

Dŵr, dŵr, i ni, yw cân adar, Dŵr yn unig, loeyw ddŵr, medd blodau'r pant;

:l	.f	:m	.r	s	.m	:r	.d	l_1	$.t_1$	:d	.m	l_1	$:t_1$	d	:—
$:l_1$	$.l_1$	:d	$.t_1$	r	.d	$:t_1$	$.l_1$	l_1	$.s_1$	$:s_1$	$.ta_1$	l_1	$:s_1$	s_1	:—
:f	.r	:m	.f	s	.s	:f	.m	f	.r	:d	.d	d .f	:f .r	m	:—
$:r_1$	$.f_1$	$:s_1$	$.s_1$	t_1	.d	$:s_1$	$.l_1$	f_1	$.f_1$	$:m_1$	$.d_1$	f_1	$:s_1$	d	:—

Dŵr, dŵr, i mi, medd y ddaear, Dŵr, medd lleisiau pêr y plant.

Dŵr, dŵr, yw bref yr oenig
Ar glogwyn sych y graig;
Dŵr, dŵr, yw cân afonig
Wrth lifo'n rhydd i'r aig;
Dŵr, dŵr, medd "Llygaid" siriol
"Y dydd," ar fryn a phant;
Dŵr, dŵr, yw'r gân berseiniol
Gan leisiau myrdd o blant.

Cytgan—Dŵr, dŵr, i ni, &c

Llanon, Ceredigion. IOAN RHYS

John Davies o Gefncoed.

"CANMOLWN yn awr y gwŷr enwog," ebr un o ddoethwyr y Beibl. Dyna'r duedd gyffredin, onite? sef, canu clodydd y dynion a'r benywod a ysgrifennodd neu yr ysgrifennwyd eu henwau'n amlwg ar ddalennau hanes ar gyfrif rhyw wrhydri o rywfath a gyflawnwyd ganddynt yn eu dydd. Teilyngant eu clodfori. Y mae'r byd dynol tan ddyled mawr iawn iddynt. Tlawd iawn a fyddem ni o'r genhedlaeth y sydd yn awr pe'n hamddifedid, megis mewn amrantiad, o bopeth a enillwyd inni gan enwogion yr oesau a fu. Ond—beth am y "rhai heb fod coffa amdanynt, y rhai y darfu am danynt fel pe na buasent, ac a aethant fel pe nas ganesid hwynt?" Er mor fawr yw'r clod a berthyn i enwogion daear, llawer iawn mwy, yn ôl a dybiaf, yw'r clod a haedda'r dorf ddi-nod, ddi-goffa am danynt, ar gyfrif eu gwasanaeth ffyddlon, nad beth ei natur, yn y cylchoedd cyfyng y troent ynddynt. Un o'r dorf ddinôd a fydd testun y llith hon, sef, y diweddar John Davies o Gefncoed.

Y mae, bellach, tua phum chwarter canrif er pan gychwynwyd yr achos yng Nghapelygroes. Ynghwrs y cyfnod hir hwn, bu amryw genhedlaethau o ddynion a benywod yn cyrchu i'r lle, gan wneuthur a allent (bob un o honynt) i gadw'r lamp ynghyn. Y mae enwau'r mwyafrif mawr o honynt wedi syrthio'n llwyr i dir angof, ac ni feddylia neb fawr (os dim) am danynt. Yn fynych iawn, pan rodiaf yn hamddenol hyd y fynwent, ac y darllenaf y cof-lechau o un i un, dywedaf—"Bu hwn (neu hon) yn un o ffydd-

loniaid yr achos." A lluosog iawn yw nifer y rhai y gellir dyweyd fel hyn am danynt. Ond, os yw'r gweithwyr wedi gorfod cilio o un i un, ni lafuriodd yr un o honynt yn hollol ofer. Syrth y gweithwyr, eithr erys ffrwyth eu llafur.

Pan oeddwn ieuanc, perthynai i gynulleidfa Capelygroes nifer o ddynion a benywod y mae gennyf gôf melys iawn am danynt. Bu ychydig o honynt tan sylw mewn llithoedd blaenorol. Eithr nid oedd hynny a ennwyd yn y llithoedd hynny ond megis degwm o'r nifer y gallwn eu henwi; a phe'm tueddid i enwi, yr anhawster a fyddai dewis; ac ar ôl dewis, efallai y gadawn allan amryw a wir deilynga'u henwi. O ddewis, rhaid dewis y rhai y deuthum i yn bersonol i gyffyrddiad agosaf â hwynt.

Un o'r cyfryw oedd y diweddar John Davies o Gefncoed. Nid amhriodol mo'r gair "diweddar" yn y cysylltiad hwn; oblegid nid oes ond ychydig iawn o flynyddoedd er adeg ei farw. Pan ddeuthum i adnabyddiaeth o hono gyntaf, yr oedd yn ddyn cymharol ieuanc, yn ei amser goreu. Er yr adeg honno—y mae, bellach, ymhell iawn yn ôl—deuthum i gyffyrddiad agos iawn ag ef. Yr oeddwn, yn un peth, yn byw yn agos—nid oedd ond taith o ychydig funudau o'm cartref i i'r eiddo ef. Bûm, hefyd, yn ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul. Rhwng popeth a'i gilydd, cefais ddigon o gyfleustra i dreulio cryn dipyn o'm hamser yn ei gwmni, a dod i adnabyddiaeth lled drwyadl o hono, a gweld ei ragoriaethau; ie, ei ragoriaethau, oblegid perthynai iddo lawer o honynt. Dim ond at ddwy o nodweddau dymunol ac edmygadwy ei gymeriad, fodd bynnag, y cyfeiriaf yn awr.

Un nodwedd arbennig o amlwg oedd ei ffyddlondeb. Mynychai'r addoliad a'r Ysgol Sul yng Nghapelygroes yn ddi-fwlch. Ni adawai i unmath ar rwystr i'w luddias rhag bod yn bresennol—gyda'r unig eithriad o anhwylder. A phan ddigwyddai iddo fod yn absennol, tra sicr yr oeddwn mai anhwylder a gyfrifai am hynny, ac nid clefyd arferol y Sul. Wyddai ef ddim am yr olaf. Ai têg ynteu garw'r hin, nid oedd ei le byth yn wâg. Nad pwy a brofai'i hun yn anffyddlon, nid ef a wnai hynny. Nid oerai ei frwdfrydedd ef, oblegid sylwi o hono ar oerfelgarwch ar du rhywun arall. Ni pherthyn i mi i ddyweyd pa nifer o dalentau a roddwyd iddo; ni fedraf ddyweyd, am na wn. Ys dywed yr hen Ddafis, ar ôl Gray,—

"Y mae'r gemau a'r perlau puraf,
Goreu'u lliwiau îs y llo'r,
Dan y tonnau'n gudd rhwng creigiau,
Yn nyfnderoedd mawr y môr;
Ac mae'r blodau teca'u lliwiau,
Lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn tannu'u peraroglau,
Lle na sylwa neb mo'u sawr."

Yn yr un modd, gall y perthyn i ddyn dalentau mawr ; eithr o ddiffyg y cwrtaith angenrheidiol, aros yng nghudd a wnant, ac ni ŵyr neb mo'u bod. Gwn na chafodd gwrthrych ein llith fawr iawn o fanteision i ddatblygu ei dalentau pan yn ieuanc, nad pa faint eu nifer. Yn adeg ei faboed ef nid oedd gorfodiaeth ar neb i ddanfon eu plant i'r ysgol ; ac os y'u danfonid i ysgol o gwbl, dim ond am dymor byr y gwneid hynny yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Clywais ef yn dweyd lawer gwaith mai ychydig o ysgol a gafodd. Ond bu hynny o ysgol a gafodd yn help iddo yn y blynyddoedd dilynol i eangu a pherffeithio ei wybodaeth. A dyna a wnaeth. Darllenai lawer ; ymhyfrydai mewn darllen ; ymdrechai ddeall a ddarllenai ; ac er gwaethaf anfanteision boreu'i oes, daeth i feddiant o gryn lawer o wybodaeth fuddiol. A chysegrodd ei dalentau a'i wybodaeth i'r gwasanaeth goreu. Gwnaeth hyn yn ffyddlon, trwy'i holl fywyd, hyd y daeth methiantau henaint i'w gaethiwo i'w gartref. Ni wn i am neb a deilynga'n well nag ef y ddedfryd " Da, was da a ffyddlon ".

Nodwedd amlwg arall o'i gymeriad oedd ei sirioldeb di-gwmwl. Edrychai bob amser—ie, bob amser—ar yr ochr oleu i bopeth. Braidd na ellir dweyd ei fod, yn hyn o beth, yn eithriad i'r rheol gyffredin. I'r rhan fwyaf o ddynion a benywod, y mae bywyd yn gymysgedd o bobmath ar elfennau—gofid a phleser, heulwen a chwmwl, llawenydd a phrudd-der, gobaith ac anobaith, ffydd a diffyg ffydd. Os yw bywyd yn llawn o'r pleserus a'r dymunol heddiw, yfory efallai mai llawn o'r gofidus a'r annymunol a fydd. Os haulwennog ydyw awyrgylch bywyd yn awr, maes o law efallai y'i cuddir gan gymyl tywyll. Un funud teimlir y galon yn ysgafn, y funud nesaf trwm a fydd. Os goleuir y dyfodol, un adeg, gan ffydd a gobaith, yr adeg nesaf neu ryw adeg yn nes ymlaen, fe'i tywyllir gan ddiffyg o'r elfennau hyn. Rhyw gymysgedd o'r fath hyn yw bywyd i'r mwyafrif. A mynych iawn y gwneir yr annymunol yn fwy annymunol oblegid methu o honom a chadw'r olwg rhag sylwi'n ormodol arno. Yn fynych iawn, hefyd, y mae'r cymysgedd hwn o bobmath ar elfennau a wna i fyny brofiad dynol yn guddiedig o olwg y byd. " Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun ; a'r dieithr ni bydd gyfrannog o'i llawenydd hi ". Ambell un iawn a fedr fyw'n wastadol yn y tesni. Yr oedd gwrthrych y sylwadau hyn yn un o honynt ; yn y tesni a'r heulwen y trigai'n wastadol. Ni ddywedaf na ddaeth gofidiau i'w ran, na thywyllwyd awyrgylch ei fywyd gan gymylau tywyll, na wanhai ei ffydd a'i obaith dan rai amgylchiadau. Nid oes undyn boed sant neu bechadur, na ddigwydd hyn iddo weithiau Nid da, ychwaith, a fyddai llwyr ryddid o bopeth annymunol ; oblegid fel y cryfheir gafael gwreiddiau coeden yn y ddaear gan ambell i storm o wynt, fe gryfheir ac fe berffeithir elfennau goreu'r natur ddynol gan ambell i adeg o dywydd garw. Ni fu bywyd John

Davies, yn ddiau, yn eithriad. Eithr ymhobmath ar amgylchiad a phrofiad, medrai edrych ar yr ochr oleu. A dywedaf—gwyn ei fyd.

Fel y sylwais, ynglyn â hanes Capel-y-groes o adeg ei sefydliad hyd yn awr y mae enwau llu mawr iawn a wnaeth eu goreu tros yr achos. Eithr tra sicr ydwyf na fu neb a fu a'i galon mor llwyr yn y gwaith a John Davies o Gefncoed. Ac ar gyfrif fy nyled iddo am aml i air o galondid ac o gyfarwyddid, da gennyf allu o honof, fel hyn, dalu fy nheyrnged o barch i'w goffa.

D.E.

Pwyllgor yr Hydref.

CYNHALIWYD Pwyllgor y Gymdeithas ym Mhantydefaid, Mercher, Hydref 25, y Llywyddes, Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther, yn y Gadair.

Wedi darllen a derbyn cofnodion y Pwyllgor Blynyddol estynodd Mrs. Jones groesaw y Gymdeithas i'r Parch. E. Gwilym Evans, B.A. a'i deulu ar eu dyfodiad i'n plith gan ddymuno iddynt iechyd a llwyddiant mawr.

Cyflwynodd Mrs. Jones hefyd longyfarchiadau cynesaf y Gymdeithas i Mr. J. Marles Thomas ar ei waith yn ennill y radd o M.A. ym Mhrifysgol Glasgow—meddai, "à ein dymuniadau gorau iddo yntau am ddyfodol defnyddiol a chysurus."

Is-lywydd y Gymdeithas.—Gan fod y Parch. Ddr. Tudor Jones yn methu gweld ei ffordd i ymgymeryd a bod yn Is-lywydd am y flwyddyn etholwyd un o ffyddloniaid yr achos yn ei le—Mr. Thomas Davies, Y Felin, Cwrtnewydd.

Penrhiw.—Derbyniwyd amcan gyfrif o'r draul ynglŷn ag adgyweiriadau ar hwn oddiwrth Mr. Jenkin Morgan. Gadawyd y mater yn llaw Mr. Tom Davies, Dewi Villa, Mr. Jenkin Morgan a'r Ysgrifennydd.

Yr Ymofynnydd.—Dywedodd y Golygydd newydd—y Parch. T. L. Jones, Cefncoed, ei fod wedi gofyn i bedwar cwmni o argraffwyr am *quotations* ynglŷn ag argraffu'r YMOFYNNYDD. Er fod prisiau un neu ddau o honynt ychydig yn îs pasiwyd yn frwdfrydig fod y misolyn i'w argraffu fel arfer yng Ngwasg Gomer, Llandysul. Y rhesymau ddygwyd ymlaen dros hynny oedd (1) Ei fod wedi ei argraffu yno am gynod maith; (2) Fod y gwaith o'i gysodi yngofal "un o'n pobl ni"—un a edrych arno fel plentyn ei ofal; (3) Fod y Wasg yma ar hyd y blynyddoedd wedi rhoddi boddlonrwydd mawr gyda'r gwaith: gofalu fod y papur yn dda a'r argraffu yn lân a chlir.

Trysorfa'r Myfyrwyr.—Rhoddodd y Trysorydd—y Parch. E. Rosalind Lee, M.A.—ar ddeall lle y saif hon ynghyd ag ychydig o hanes y myfyrwyr. Dywedodd y bydd arni eisiau £28 erbyn Ionawr a swm gyffelyb erbyn Ebrill nesaf.

Cyrddau'r Pasc, 1934.—Cafwyd lle i gredu y derbynir gwahoddiad i gynnal y rhai hyn yng Nghaeronnen.

Y Perlau Moliant.—Mae'r oll o'r ddyled ar hwn bron a mynd (£8/7/10 sy'n aros). Yr ydym yn ddyledus i'r Llywyddes ac ychydig gyfeillion eraill am hyn. Cafwyd ar ddeall gan y Parch. Gwilym Evans, fod rhyw gyfaill yn barod i fod yn hanner y ddyled a saif "ar y dydd hwn". Pasiwyd fod unrhyw symiau ddaw i law o werthu copiau pellach o'r Perlau i fynd i'r Drysorfa Gyffredinol.

Miss Lee—cafwyd anerchiad diddorol gan Miss Lee yr hon oedd yn bresennol fel cynrychiolydd y Gymdeithasfa Gyffredinol. Awgrymai mai buddiol fyddai rhoi gwahoddiad i Lywydd y Gymdeithasfa Gyffredinol, y Parch. Alfred Hall, M.A. i'n plith

am dro. Derbyniwyd yr awgrym a gobeithiwn gael ei weld a'i glywed cyn diwedd tymor ei swydd.

Cyfansoddiad (Constitution) y Gymdeithas.—Yr oedd amryw o'r farn y dylai'r Gymdeithas dynnu allan reolau i weithio wrthynt a phenodwyd Pwyllgor bychan i dynnu allan gynllun o gyfansoddiad erbyn Pwyllgor y Pasc—sef y Llywyddes, y Trysorydd, yr Ysgrifennydd a'r Parchn. E. Gwilym Evans, B.A. a S. E. Bowen.

Pasiwyd i roi hawl i'r cynulleidfaoedd i ddewis eu cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Gweithiol ac fod cofnodion y Pwyllgor hwn i'w darllen yn y Pwyllgorau arferol. Cafwyd ar ddeall gan y Trysorydd fod Urdd y Benywod wedi rhoddi help sylweddol i dynnu i lawr ddyled y Gymdeithas. Dywedodd hefyd mai un Eglwys yn unig sydd heb ddanfon i fewn ei chasgliad am y flwyddyn. Diolchwyd yn gynnes i Mrs. Jones am lywyddu mor hwylus ac i'r cyfeillion ym Mhantydefaid am dderbyn y cyrddau mor wresog.

E. O. Jenkins.

Priodasau.

Tachwedd 22ain, yn eglwys Henfenyw, gerllaw Aberaeron, unwyd mewn glân briodas Mr. Ieuan Lloyd Davies, trydydd mab Mr. a Mrs. Davies, Foelallt, Ciliau Aeron, â Miss Maggie M. Williams, merch hynaf Mr. a Mrs. Williams, Nantgwynfynydd Uchaf, Llanarth. Cyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. B. Herbert, M.A., Ficer, Henfenyw. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchn. T. F. Lloyd, curad; J. Williams, Rheithor Ciliau Aeron, a Lewis Williams, gweinidog Capel Ciliau Aeron. Yn ddedwydd bo y ddau.

Ym Mrondeifi, Sadwrn, Tachwedd 25, gan y gweinidog, y Parch. T. O. Williams, M.A. ac o flaen y Cofrestrydd, Mr. Enoch Davies, 1, Mill Street, Llanbedr, unwyd mewn glân briodas John Richard Jones o Frynaman â Bessie Davies, Godre'rglyn, Cwmanne, Llanbedr (ond yn ddiweddar o Gaerfyrddin ac Aberystwyth). Gwenau'r nef a fo iddynt drwy gydol bywyd.

Marwgof.

Blin iawn gennym gofnodi hanes marwolaeth Miss Margaret Rowlands, Llewellyn St., Trecynon, yn 62 oed. Er nad ydoedd wedi bod mewn iechyd da ers misoedd ni freuddwydiwyd gennym fod y diwedd mor agos. Dynes dawel, diymhongar ydoedd ac mewn parch uchel gan bawb yn y cylch. Dioddefodd lawer yn ddirwgnach a theimlir gwacter mawr ar ei hôl. Yr oedd ganddi barch diffuant at yr Hen Dŷ Cwrdd ac at bethau uchaf bywyd. Cafodd y teulu hwn ergydion caled iawn y blynyddoedd diwethaf hyn ac estynnwn i'r brawd a'r chwaer sydd ar ôl ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hunigrwydd, eu trallod a'u hiraeth. Claddwyd dydd Mawrth, Hydref 31ain, ym mynwent Eglwys Penderyn. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Fe edrych Cynghrair y Gwragedd ymlaen yn awyddus at dymor o wasanaeth gwerthfawr eto'r gaeaf hwn. Yn y cyfarfod agoriadol cawsom ddeall i ymdrechion y tymor blaenorol sylweddoli £70 ar gyfer y ddyled sy'n aros ar Dŷ Newydd y Gweinidog. Dymunwn i'r Cynghrair dymor llwyddiannus mewn gweithgarwch a diwydrwydd. Yn ystod misoedd yr haf bu nifer o'r brodyr hwythau yn harddu ac adgyweirio hen Gapel Gellionnen. Perigl i seiliau'r adeilad ydoedd dyfroedd y mynydd, ond fe'i diogelir yn awr gan gwteri dyfnion, llafur hunan-aberthol carwyr yr achos. Ail-loriwyd y Capel mewn llawer man oddimewn, ac wedyn bu'r gwragedd wrthi'n ddiwyd yn glanhau.

YR YSGOL SUL.—Y mae *syllabus* gwaith yr Ysgol Sul am y flwyddyn 1933—34 wedi dod i law, a chlywir cwyno fod y rhwyd wedi'i thaflu yn rhy helaeth o lawer, hyd yn oed gyda'r addewid o nodiadau yn y tri rhifyn nesaf o'r YMOFYNNYDD. Pe caniateid i mi awgrymu (y mae'n rhy hwyr weithian) dywedwn fod yna ddigon o waith am bedair blynedd o leiaf ac y buasai yn well hyd yn oed yn awr roi cyfnod llai o lawer, ond nid yw hynyna ond fy marn bersonol i.—T.O.W.

CYFRIFON YR EGLWYSI AM 1933.—Bydded i'r Eglwysi hynny—a gobeithio eu bod yn llawer—fwriadant ymuno'n y cynllun o gael cyfrifon yr Eglwysi am 1933 allan yn un llyfryn fod mor garedig a gyrru gwybod i mi o hyn i ddiwedd y flwyddyn. Buasai'n ddymunol cael y llyfryn allan cyn diwedd Chwefror os yn bosibl.—E. O. JENKINS.

Adolygiad.

"FY HANES I FY HUN." (W. Spurrell a'i Fab, Caerfyrddin, 1933). Nofel ar ffurf Hunangofiant y Parch. J. Cymro Jones a ddechreuodd ei yrfa fel gweinidog Annibynnol ond a orweddodd i lawr yn y diwedd ynghanol porfeydd gwelltog a dyfroedd tawel yr Eglwys yng Nghymru neu yn hytrach Eglwys Loegr yw "Fy Hanes i Fy Hunan". Y mae'r llyfr fel Bodfan ei hun a gŵyr llawer ohonom am fedr Bodfan fel cynghaneddwr ac fel ysgrifennwr Cymraeg hefyd. Y mae gennyf i barch dibendraw i'r enw Anwyl oherwydd bum am dair blynedd ynghwmni yr Ysgolor Cymraeg a'r gŵr bonheddig—Syr Edward Anwyl. Ni fedr neb beidio a mwynhau'r llyfr,—y mae mor ddoniol, ond ofnaf ei fod yn rhy wir. Darlunia yn noeth enaid gweinidog ieuanc o Anghydffurfiwr yn teimlo fod gwell *life*, gwell cyfleu a gwell cymdeithas i droi ynddi (a gwell siawns am wraig fel y dywedai rhywun a aeth adref fel John Cymro Jones) yn yr Eglwys nac wrth fugeilio cynulleidfa dlawd mewn rhyw Fethel wledig. Y mae Bodfan yn foneddigaidd iawn wrth ddilyn ei gamre. Y mae'n colli llawer peth, ac yn y diwedd yn colli'i iaith, gobeithio nad yw hefyd wedi colli'i enaid. Y mae hawl gan ddyn newid ei farn a throi o bydd yn dilyn y golau. Oni bydd yn dilyn y golau y mae yna sôn am rywbeth fel Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân—Ond nid yw hynyna ond barn bersonol ac os ych am awr ddifyr ac am weld *trend* llawer darllenwch "Fy Hanes i Fy Hunan" gan Bodfan.

(*Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw rhai Nodion, etc., hyd y rhifyn nesaf.*)

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.